**EITEM**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD |
| **DYDDIAD** | 20 MEHEFIN 2014 |
| **TEITL** | DATGANIAD LLYWODRAETHU AR GYFER Y PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD |
| **PWRPAS** | ER GWYBODAETH I AELODAU'R CYD-BWYLLGOR |
| **AWDUR** | Aled Davies, Pennaeth Adran Rheoleiddio |

**1. CEFNDIR**

1.1 Mae Rhan 4 o Reoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru) 2005 yn gosod gofynion penodol ar gyrff cyhoeddus sydd yn gweithredu trefniadau rheoli partneriaethol trwy gydbwyllgorau ffurfiol. Golyga hyn fod yna ofyn i adrodd yn ffurfiol i'r cyd-bwyllgor gan gyflwyno Adroddiad Cyfrifo Blynyddol.

1.2 I gyd-fynd â'r gofyn hwn dan Reol 4 y Rheoliadau, atodir drafft cychwynnol o Ddatganiad Llywodraethu ar gyfer y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd. Mae'r ddogfen wedi ei pharatoi i gynnig fframwaith i'r adroddiad cyfrifo ar ôl ystyried y gwahanol gytundebau rhwng Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn.

1.3 Dylid nodi mai datganiad ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor ydi hwn ac nid datganiad ar ran y Pwyllgor ydyw.

1.4 Cyflwynir y drafft hwn i sylw'r Pwyllgor. Ym Mis Medi, bydd yr adroddiad terfynol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor fel rhan o becyn adroddiadau archwilio'r Cyd Bwyllgor.